

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Ionawr 15fed 2014
am 7 - 0 o'r gloch.

1. **Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng. Megan Roberts, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.
Presennol - Cynghorwyr Megan Roberts (Cadeirydd), Emlyn Jones, Mary Ellis, Delyth Jones, Alan Owen, Wyn Hughes, Lewis Davies, Gareth Moore (Is – gadeirydd) a Geraint Parry (Clerc).
 Cynghorwyr Ward Seiriol - Cyng. Carwyn Jones
 2. **Ymddiheuriadau** - Cyng. Alwyn Rowlands, Ruth Roberts, Ann Roberts a Dafydd Roberts
 3. **Cofnodion**
 Derbyniwyd Cofnodion y Cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11fed o Ragfyr, fel rhai cywir gan Cyng. ac eiliwyd gan Cyng.
 Bawb i anfon ymlaen unrhyw faterion sydd angen ei godi, wythnos o flaen y cyfarfod nesaf i'r Clerc.
 4. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
 - 1) **Wefan y Cyngor Cymuned** - wefan " CyngorCymunedLlangoedaPenmon" nawr wedi ei greu. Clerc yn gofyn am sylwadau am y safle.
 - 2) **Sedd yn warchodfa bws** – dal heb ei osod, Clerc ddim wedi cael unrhyw ymateb i'w ohebiaeth. Clerc i ddilyn y cais i fyny.
 - 3) **Sgwâr Tawelfan** - Nid yw'r planhigion gwely gaeaf wedi eu plannu eto. Penderfynwyd cysylltu ar Ysgol ar glwb garddio.
 - 4) **Cais Bwthyn Glandŵr** - Cyng. E Jones yn gofyn, ydi'r Cyngor Cymuned wedi cael ymateb ynglŷn a pherchnogaeth y tir? Cyng. L Davies yn ymateb - na fyddai'r cais wedi eu wneud os nad yw perchenogaeth y tir wedi ei ddatrys.
 - 5) **Mesurau cyflymder** – wedi cael eu marcio ar y ffordd, naill ochr i'r maes chwarae plant.
 - 6) **Palmant Tros yr Afon** - Mr. Geoff Owen wedi cytuno gwneud y gwaith.
 - 7) **Gorchymyn dros nos ym Mhenmon** – Cyng. L Davies yn adrodd fod llythyrau rhybuddio wedi eu dosbarth i dai cyfagos i'r ardal.
 5. **Datgan Diddordeb**
 - Cyng. L Davies a C Jones ar gais 41C125B/EIA/RE. Cyng. A Owen a G Moore ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
 6. **Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**
 - 41C125B/EIA/RE - Cais llawn ar gyfer codi 3 twrbin gwynt yn Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy, gwybodaeth ychwanegol - gwrthwynebu, effaith mawr ar dwristiaeth.
- Er gwybodaeth**
- 35C311 dymchwel, addasu ac ehangu yn Gorwel, Llangoed - wedi ei ganiatau.
7. **Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**
Cyng. L Davies:-
 - 1) William Vaughan (Gwlefor) wedi cysylltu wrth ddiolch am dorri'r llwybr cyhoeddus a gofyn oes bosib cael trwsio'r giât ar y llwybr troed. I drafod ymhellach gyda'r Cyngor Sir.
 - 2) Wedi derbyn cais am fin wastraff i'w lleoli wrth "Derwydd". Cyngor Sir i asesu'r lleoliad.
 - 3) Caroline Draper o Benmon wedi cysylltu gan feddwl creu busnes "Pryd ar Glud" o gylch y pentre'. Wedi gofyn i Bwyllgor y Neuadd a oes posib defnyddio cegin yn y Neuadd. Teimlo fod cegin y Neuadd ddim yn addas i'r gwaith yma.
 - 4) Hawlfraint Treffos - wedi helpu nifer o gylch y pentre' i lenwi'r ffurflen UN4. Nifer nawr wedi derbyn ffurflen arall sydd yn gwrthwynebu y cais UN4. Rhun ap Iorwerth yn gweld prif swyddog o adran Gofrestru Tir ar 21/01/14 i drafod y mater. Meddwl nid ydi'r Cyngor Sir yn gwneud digon i gynorthwyo pobl leol.
 - 5) Pwyllgor Cyllideb - arbed £7 miliwn blwyddyn nesaf gyda gosod y dreth am 5%. Bydd toriad o'r maint yma yn golygu gostyngiad enfawr mewn gwasanaethau a llai o grantiau lleol. Hefyd mae comisiwn Williams yn awgrymu lleihau nifer o gynghorau yn Gymru, bosib i 11 ddeg.
 - 6) Mae cyfarfod i drafod gwasanaethau cymdeithasol yn yr ardal, 30/1/14 am 5.30 yn Ysgol Biwmares. Gwahodd i bawb.**Cyng. C Jones:-**

- 1) Egluro bod gan y Cyngor Sir llawer o ystadau fferm, gyda `r gwaith cynnal a chadw yn llawer mwy na'r rhent, ac er mwyn lleihau'r diffyg, rwyf wedi awgrymu iddynt werthu rhywfaint o'r tir hwn.
- 2) Wedi derbyn nifer o gwynion lleol bod Cwmni bysiau Padarn wedi penderfynu tynnu tocyn wythnosol heb ddim rhybudd. Hyn wedi cynyddu pris tocyn bws ar gyfer defnyddwyr rheolaidd. Dywedodd y cwmni fod hwn wedi ei achosi trwy doriadau gan y llywodraeth ar Cyngor lleol a bod y tocynnau yn cael ei rhannu gan ddefnyddwyr.

8. Neuadd y Pentre'

Cyng. A Owen a G Moore yn adrodd:- Dilyn y gwyntoedd uchel dros y gwyliau, mae nenfwd y neuadd fawr wedi cael ei difrodi lle mae darnau o'r plastr wedi disgyn i lawr. Oherwydd hyn mae rhaid cau'r ystafell. Cwmni yswiriant yn anfon syrfëwr. Cyng. C Jones i gysylltu ag aelodau pwyllgor Neuadd Llanddona er mwyn holi am grantiau tuag at gost y gwaith.

9. Maes Chwarae Plant

Cyng. M Ellis yn adrodd – bod Cyng. D Roberts yn gobeithio i gael gwybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.

10. Cyfrifon

Taliadau, penderfynwyd talu:-

G Parry, cyflog Hydref – Rhagfyr 13, £440.20

Green Tree Services – torri coed, £80

Green Tree Services – clirio coed, £30.

Capel Tŷ Rhys - rhodd, £350.00

Incwm

Fynwent y Plwyf - £142.00

3ydd Praesept - £3,112.24

11. Gohebiaeth

Llythyr - Cyfarfod grŵp ffocws, trafod cyllid 2014/45 - 7 o'r gloch Siambr y Cyngor Sir 23/1/14

Llythyr - D Williams, Neuadd y Pentre'

Llythyr – J Egar, cwyn ceir yn parcio yn Adwyr Nant.

Llythyr – cyfarfod cyllidol 2014/15, siambr Cyngor Sir 23/01/14 am 7 o'r gloch.

Llythyr – Un Llais, cyfarfod cylch Ynys Môn, 29/01/14 am 7 o'r gloch, Shire Hall, Llangefni

Llythyr – Un Llais, gwahoddiad i barti Gardd Palas Buckingham

E-bost – Osian Jones, Uned Polisi Cynllunio

E-bost – Cynllun Heddlu a Throsedd - drafft

Apêl – Radio Ysbyty Gwynedd

Apêl - Cerdded o gylch yr arfordir

Apêl - Marie Curie

Apêl - Steve McVicar, taith hwyl beic, 11/05/14 am 10.30yb

Pecyn – Un Llais, hyfforddiant

Llythyr - Bwrdd Gwasanaeth Gwynedd a Ynys Môn

Llythyr – cyfarfod cyhoeddus, Peilonau yn Llanfair PG, 24/01/14 am 7 o'r gloch.

12. UFA:

- Cyng. A Owen - arwydd "palmant" ar y ffordd ger y fynedfa i'r llwybr Warchodfa, ymddangos bod wedi cael ei droi.
- Cyng. M Ellis - credu bod to'r gysgodfa bws y Glanrafon wedi cael ei ddifrodi gan y gwyntoedd cryf.
- Cwyn - bod nifer o geir yn parcio yn Adwyr Nant. Mae'r ffordd hwn y breifat.
- Adrodd ar Fynwent Capel Tŷ Rhys gan Mr Owen Williams, gwaith ar yr hen fynwent ar fynwent newydd wedi ei gwblhau a thalu amdano. Gobeithio cael gwirfoddolwyr i wneud y gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol. Cyng. L Davies am anfon llythyr i drïo codi aelodaeth Ysgoldy Llanfihangel. Fydd hyn yn rhoi'r cyfle i gadw tua 60% o'r arian gwerthiant y Capel. Syniad oedd defnyddio'r cylch llythyr i rannu gwybodaeth. Penderfynwyd gwneud rhodd ar gyfer cynnal a chadw'r fynwent.
- Niwed i giatiau'r maes parcio'r Eglwys - Clerc wedi cysylltu gyda chwmni gwneuthurwyr y giatiau er mwyn cael dyfynbris am y difrod. Clerc i gysylltu â Mr A Owen.
- Clerc yn rhannu gwybodaeth hyfforddiant gan Un Llais i gynghorwyr

- Cais gan Steve McVicar ar ran Canolfan Hamdden Biwmares, trio trefnu taith hwyl beic ar 11/05/14. Gofyn a fuasai'n bosib cael defnyddio Neuadd y Pentre' i ddarparu lluniaeth ar gyfer y beicwyr. Pwyllgor y Neuadd yn cytuno.
- Baw ci yn y pentre' - Neges ar "Facebook" gan yr Heddlu, fod cymaint o faw ci ar hyd y strydoedd. Bydd tîm plismona cymdogaeth yn cynnal patrolau rheolaidd i amlygu a dal rhai sy'n gyfrifol am y llanast. Bagiau baw ci gwastraf' wedi cael eu cyflwyno i siopau lleol yn y pentref. Hefyd mae cymhorthfa Heddlu yn yr Ysgol ar 17/01/14 am 3.15 yp.
- Mae gwefan y Cyngor Cymuned nawr ar gael, pawb i edrych a phasio unrhyw sylwad i'r Clerc.
- Fel rhan o doriadau, mae'r Cyngor Sir yn lleihau neu newid y nifer o wasanaethau bws o fis Ebrill. Effeithio dau wasanaeth dydd Sul yn yr ardal hon.
- Dilyn trafodaeth penderfynwyd gofyn i'r Clerc i wirio'r rheolau o ran diffyg presenoldeb yn ein cyfarfodydd misol.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.10 o'r gloch. Cyfarfod nesaf 12/02/14.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad